CYMUNEDAU GWYDN
RESILIENT COMMUNITIES

# Grant Ynni Effeithlon Cymunedau Gwydn
# Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

Ariennir Grant Ynni Effiethlon Cymunedau Gwydn gan Gronfa Twf Lleol Lywodraeth y DU. Mae'n rhaglen grant ariannu sy'n benodol ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni cymunedol ac mae'n parhau gyda llwyddiant y rhaglen Reach, gyda'r uchelgais o ddatblygu cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr yn llefydd ffyniannus i fyw, ymweld a gweithio ynddynt.

"Bydd y Gronfa Twf Lleol yn galluogi buddsoddiadau wedi'u targedu sy'n ymateb i gyfleoedd a heriau lleol, yn gwneud y gorau o werth am arian, ac sy'n cyfrannu at economi fwy cydnerth, cynaliadwy a ffyniannus yng Nghymru."

**Nodau'r Grant Ynni Effeithlon Cymunedau Gwydn yw:**

- Cefnogi prosiectau sy'n ceisio lleihau allyriadau carbon ac sy'n mynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Cefnogi gwaith cyfalaf fyddai'n ceisio lleihau costau ynni a gwella effeithlonrwydd ynni.
- Cefnogi prosiectau sy'n ceisio sicrhau bod asedau sydd â pherchnogaeth/ar les yn lleol er enghraifft lleoliadau cymunedol a chlybiau chwaraeon lleol.
- Annog prosiectau fydd yn arddangos gwerth am arian a chynnig amrywiaeth o wasanaethau cymunedol cynaliadwy.
- Cefnogi prosiectau sy'n ceisio lleihau eu hôl troed carbon a cheisio mynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Cefnogi gwaith cyfalaf fyddai'n galluogi gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol pellach gael eu darparu a cheisio cynyddu'r potensial i gynhyrchu incwm.
- Darparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau cyfalaf ar raddfa fwy a gweithio ochr yn ochr gyda Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a grantiau cyfalaf ariannu mawr.

## Meini Prawf Cymhwysedd

- Dyfernir grantiau o'r gronfa hon i grwpiau sy'n ymwneud â phrosiectau a mentrau sy'n seiliedig ar y gymuned a fydd o fudd i'r ardal leol o fewn Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

- Bydd prosiectau'n cael eu hasesu ar eu gallu i gyfrannu at gyflawni Cynllun Ynni Ardal Leol y Cyngor, strategaeth Sero Net Carbon y Cyngor, strategaeth Sero Net Carbon 2030,a strategaethau Sero Net Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

- Rhaid i'r holl brosiectau a ariennir gan y Gronfa Dwf Lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyfrannu at yr allbynnau a'r deilliannau a gysylltir gyda'r Rhaglen. Gellir gweld rhestr lawn o'r allbynnau a'r deilliannau yn Atodiad A, ar ddiwedd y ddogfen hon.

- <u>Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer ariannu rhaid i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus:</u>
  - Fod yn hunanlywodraethol, yn dosbarthu nid-er-elw, bod o fudd cymunedol/cyhoeddus a chael dogfennau/rheolau cyfansoddiad/llywodraethu wedi'u llofnod priodol.
  - Bod â chyfrif banc gydag o leiaf 2 lofnod yn enw'r sefydliad oedd yn ymgeisio am y grant.
  - Arddangos rheolaeth ariannol gadarn, yn arbennig felly wrth awdurdodi a chofnodi gwariant.
  - Bod yn gallu darparu 3 blynedd o'ch cyfrifon ariannol diweddaraf, wedi'u llofnodi neu wedi'u harolygu, neu eu craffu arnynt yn annibynnol (yn ôl lefel yr incwm a'r gwariant) neu yn achos sefydliadau sydd wedi'u ffurfio'n ddiweddar, rhagolwg o incwm a gwariant dros y 3 blynedd nesaf.
  - Lle mae'n briodol, bod â pholisïau, rholiadau a'r awdurdodiad gofynnol effeithiol mewn lle er mwyn ymgymryd â'r prosiect arfaethedig e.e. gweithdrefnau diogelu, trwyddedau, achrediad ac ati.
  - Dangos tystiolaeth o gefnogaeth gymunedol.
  - Derbyn telerau ac amodau'r ariannu hwn.
  - Lle mae'n berthnasol bod â'r caniatâd gofynnol o ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei le e.e. caniatâd a chymeradwyaeth cynllunio, priffyrdd, parciau ac eiddo.
  - Sicrhau bod yr Hysbysiad a Thystysgrif Derbyn Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) amgaeëdig wedi'u llofnodi a'u dychwelyd i'r Cyngor cyn gynted â phosib.

## PWY ALL WNEUD CAIS?

- Grwpiau cymunedol corfforedig neu sefydliadau gwirfoddoli
- Elusennau Cofrestredig
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Sefydliadau trydydd sector
- Cwmnïau Buddiant Cymunedol
- Mentrau Cymdeithasol

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys ai peidio, mae croeso i chi gysylltu â reach@bridgend.gov.uk am gyngor.

## FAINT Y GALLWCH YMGEISIO AMDANO

Mae'r Grant Cymunedau Gwydnyn un cyfalaf yn unig ac mae'n darparu **100%** o gostau prosiect cymwys. Yr isafswm sydd ar gael yw **£1,000** a'r mwyafswm yw **£10,000** (gan gynnwys TAW nad oes modd ei adfer).

Bydd y Grant Ynni Effiethlon Cymunedau Gwydn yn cael ei ddyfarnu ar sail cyntaf i'r felin, rhaid i bob ffurflen gael ei chwblhau, a chynnwys y wybodaeth berthnasol, a'i chyflwyno gyda'r holl ddogfennau cefnogol.

Rhaid i bob prosiect llwyddiannus gael ei gwblhau erbyn **28ain o Chwefror 2027.** Ymgymerir ag asesiad cynnydd yn ystod oes y prosiect er mwyn pennu p'un a yw ar y trywydd cywir i fodloni'r dyddiad cwblhau cytunedig. **Nodwch os gwelwch yn dda oherwydd yr amserlenni cyfyngedig, y gall canlyniadau'r asesiad hwn arwain at y grant yn cael ei dynnu'n ôl.**

## BETH ELLIR EI ARIANNU

Gall y Grant Ynni Effiethlon Cymunedau Gwydn gefnogi prosiectau effeithlonrwydd ynni cyfalaf sydd â'u ffocws ar y gymuned. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Datrysiadau ynni adnewyddadwy ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd, e.e. paneli solar PV a storfeydd batri, pympiau gwres o'r aer, gwres aer i aer / pympiau oer, insiwleiddio goleuo ynni isel ac ati.
- Prosiectau fydd yn lleihau costau rhedeg hirdymor ac ôl troed carbon y sefydliad cymunedol.
- Gall TAW nad oes modd ei adfer fod yn gymwys i gael ei gynnwys o fewn yr hawliadau grant, cyn belled nad yw eich sefydliad wedi'i gofrestru o ran TAW. Os daw'r sefydliad i fod yn gofrestredig o ran TAW yn ystod amserlen y prosiect cyn yr hawliad olaf, yna mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw'r hawl i roi'r gorau i ariannu'r elfen TAW.
- Prosiectau y gellir eu cwblhau erbyn dyddiad cau 28ain o Chwefror 2027.

**Nodwch nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac fe ystyrir cytundeb fesul achos.**

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## BETH NA ELLIR EI ARIANNU?

Yn anffodus, ni all y Grant Ynni Effiethlon Cymunedau Gwydn gefnogi prosiectau ynni effeithlon cyfalaf sy'n canolbwyntio ar y gymuned, megis:

- Datrysiadau ynni adnewyddadwy i wella effeithiolrwydd ynni i drechu newid hinsawdd, e.e. paneli solar PV a banciau batri, pympiau gwres ffynhonnell aer, pympiau gwres / oer aer i aer, insiwleiddio, goleuo ynni isel ac ati.
- Unrhyw gostau a gynhyrchwyd cyn cymeradwyaeth ffurfiol
- Unrhyw gostau refeniw
- Prosiectau eraill a ariennir gan y Gronfa Dwf Lleol.
- TAW adferadwy
- Costau banc/ariannol ac ad-daliadau benthyciadau
- Costau cyfreithiol yn cael eu rhoi ar waith fel gofyniad statudol
- Costau rhedeg / refeniw arferol neu barhaus (gan gynnwys rhenti, trethi, yswiriant, cyflogau, llogi parhaus).
- Ffi Codwr Arian
- Cerbydau
- Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol
- Ail-ariannu dyledion o unrhyw fath, neu rwymedigaethau cwmni sydd heb fod yn gysylltiedig gyda'r prosiect
- Yswiriant
- Cymorth ariannol trydydd parti
- Gwaith a wneir ar eiddo domestig, naill ai eiddo sydd newydd ei adeiladu neu ei adnewyddu neu estyniadau/ystafelloedd gardd/cabannau pren.
- Cynlluniau at ddefnydd grŵp penodol.
- Costau cynnal a chadw h.y. gwaith paentio, gwasanaethu, neu unrhyw offer a ddefnyddir at bwrpas cynnal a chadw asedau.
- Gwariant anghyfreithlon.
- Hyrwyddo crefyddol.
- Hyrwyddo gwleidyddol.
- Prosiect / cynlluniau sydd wedi'u hanelu at wneud elw.
- Darparu cyfleusterau newydd yn lle'r rhai gwreiddiol sy'n ddarostyngedig i hawliad yswiriant.
- Dyletswyddau statudol.
- Prosiectau sy'n gysylltiedig gyda gweithgareddau oddi allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Taliadau prosiect a wnaed gyda cherdyn credyd, arian parod neu drwy gyfrifon banc personol.

Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## SUT I YMGEISIO

- Cwblhewch a llofnodwch y ffurflen gais Grant Ynni Effiethlon Cymunedau Gwydn.
- Darparwch **ddau ddyfynbris** i'w cymharu, sy'n berthnasol i bob elfen o'r gwariant cymwys. Bydd y dyfynbris rhataf a ddarperir yn penderfynu ar swm y grant. Dylai dyfynbrisiau gael eu darparu gan gyflenwyr sydd ar y gofrestr personau cymwys a bod yn dal achrediadau perthnasol e.e. FENSA, Cofrestr Nwy Diogel, NICEIC.
- Cynhwyswch unrhyw adroddiadau ychwanegol sy'n dangos tystiolaeth o angen cymunedol.
- Cynhwyswch gopi o'ch cytundeb prydles a llythyr caniatâd o'r Rhydd-ddeiliad (os yw'r adeilad neu'r tir ar brydles).
- Darparwch gopi o'ch cyfrifon blynyddol diweddaraf neu ddatganiadau ariannol.
- Cynhwyswch ddatganiadau banc y 3 mis diweddaraf.
- Copi o'ch Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.
- Darparwch dystiolaeth o ariannu cyfatebol a sicrhawyd at bwrpas penodol y prosiect.
- Os oes angen caniatâd cynllunio neu'r newid defnydd yn gysylltiedig gydag eiddo / adeilad, yna dylid darparu tystiolaeth o ganiatâd cynllunio cyn i'r grant gael ei gymeradwyo.
- Cyflwynir y cais llawn i Banel Cymeradwyo Grantiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Rhaid i'r Ymgeisydd dderbyn telerau ac amodau'r grant drwy gwblhau a dychwelyd y Dystysgrif Derbyn y byddwn yn ei dyfarnu os yw eich cais am grant yn llwyddiannus. Peidiwch â bwrw ymlaen gyda'ch prosiect nes y byddwch wedi dychwelyd y Dystysgrif Derbyn. Pe na bai'r prosiect yn mynd yn ei flaen o fewn y cyfnod a nodwyd yn y llythyr cynnig, byddai'r grant yn dod i ben yn awtomatig.
- Rhaid i'r holl brosiectau gael **eu cwblhau erbyn 28ain Chwefror** 2027 a rhaid i'r holl dystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth o daliad, gael ei ddarparu o fewn yr amserlen hon.

**Ni ddylid gwneud unrhyw wariant cyn i'r grant gael ei gymeradwyo, gan na all grantiau gael eu hôl-ddyfarnu.**
**O dan amgylchiadau arferol ni fyddwn ond yn cefnogi un cais o bob sefydliad o dan y Grant Ynni Effiethlon Cymunedau Gwydn.**

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## RHEOLI CYMHORTHDAL

O dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022, cymhorthdal yw pan mae awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth i fenter sy'n rhoi mantais economaidd iddynt, sy'n golygu na ellid bod wedi sicrhau cefnogaeth gyfatebol ar delerau masnachol. Gall fod ar ffurf grant, rhyddhad treth, benthyciad, gwarant neu fuddsoddiad ecwiti ar delerau ffafriol, neu ddefnyddio cyfleusterau sy'n is na phris y farchnad, ymysg mathau gwahanol o gefnogaeth.

Bydd y Cyngor yn asesu ceisiadau grant er mwyn penderfynu os oes unrhyw bosibilrwydd o oblygiadau Rheoli Cymhorthdal. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei amgylchiadau penodol. Rhaid i'r holl ymgeiswyr hefyd ystyried sut y byddant yn darparu yn unol â rheolau rheoli cymhorthdal a gwaith gyda'r cyngor er mwyn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y penderfynir bod ei angen. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y rheolau Rheoli Cymhorthdal o dan ganllawiau Llywodraeth y DU sydd ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

Pe bai unrhyw gynnig sydd i'w benderfynu arno yn cyfateb i gymhorthdal, bydd y Cyngor yn ystyried p'un a yw'r ymyriad arfaethedig gyn gyson gydag egwyddorion rheoli cymhorthdal a ph'un a yw unrhyw eithriadau neu opsiynau triniaeth eraill yn gymwys.

Un eithriad cyffredinol y bydd y Cyngor yn ei ystyried yw dyfarnu Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Mae MFA yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i ddyfarnu cymhorthdal o werth isel heb fod angen cydymffurfio gyda'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoli cymhorthdal sylweddol a nodir yn y Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Mae gan MFA drothwy ariannol felly ni all unrhyw dderbynydd dderbyn mwy na £315,000 dros y cyfnod cymwys. Mae'r cyfnod cymwys yn gyfnod tair blynedd ar ôl ei gilydd sy'n rhedeg o:

- Y rhan a aeth heibio o'r flwyddyn ariannol gyfredol (h.y. o 1af Ebrill) a
- Y ddwy flwyddyn ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Dylai'r canlynol gael ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo faint o MFA mae eich busnes wedi'i dderbyn yn ystod y ddwy flynedd ariannol gyfredol a blaenorol:

- MFA arall
- Gwasanaethau sydd o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPI)
- Cymorth a roddwyd o dan reolaethau de minimis cymorth gan Wladwriaeth yr UE a chyn diwedd y cyfnod gweithredu o 31 Rhagfyr 2020 a
- Chymorthdaliadau a roddwyd fel niferoedd bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan y Cytundeb Masnachu a Chydweithredu DU-UE cyn i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022 ddod yn weithredol.

Os ydych yn ansicr sut y dyfarnwyd unrhyw gefnogaeth ariannol flaenorol rydych wedi'i derbyn yna dylech gysylltu gyda'r sefydliad wnaeth ddarparu'r gefnogaeth.

## MANYLION CYSWLLT

**Anfonwch e-bost at:** reach@bridgend.gov.uk

**Gwefan:** http://www.bridgendreach.org.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

**Mae gan Gyngor Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddisgresiwn llwyr dros delerau, cymhwyster a gwneud penderfyniadau ynghylch y Grant Ynni Effiethlon Cymunedau Gwydn ac mae'n cadw'r hawl i ddiwygio unrhyw feini prawf ar unrhyw adeg.**

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# ATODIAD A

| Cod Allbwn | Dynodwr Allbwn ar gyfer Adrodd | Uned Mesur |
|---|---|---|
| **Asedau Cymunedol** | | |
| OP19 | Nifer o ddarpariaethau/cyfleusterau a grëwyd neu a wellwyd | Nifer o ddarpariaethau neu gyfleusterau |
| OC17 | Costau is a/neu incwm a gynhyrchwyd o ganlyniad i fuddsoddiad cyfalaf. | £ a arbedwyd drwy leihau costau a £ a enillwyd drwy gynhyrchu incwm. |

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU